


Eleni oedd y tro cyntaf i'r Eisteddfod gael ei chynnal yn ardal Y Fenni ers dros ganrif, gyda'r Maes wedi'i leoli ar diroedd Dolydd y Castell, a oedd yn gyfleus iawn ar gyfer canol y dref.

Etholwyd yr hanesydd lleol, Frank Olding, yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a than ei arweiniad tawel a llawn hiwmor, cafwyd dwy flynedd brysur a hapus, gyda thîm bychan ond hynod ymroddedig a gweithgar wrth y llyw.

Trefnwyd cannoedd o weithgareddau a digwyddiadau'n enw'r Eisteddfod ar draws y dalgylch, a chyda cefnogaeth y cyngor sir, llwyddwyd i godi £300,000 i'r Gronfa Leol. Diolch o galon i bawb am eu gwaith diflino.

Mae cael perthynas gref gyda'r awdurdod lleol yn bwysig iawn wrth gynllunio digwyddiad o'r maint hwn, ac roedd Cyngor Sir Fynwy'n ardderchog. Roedden nhw'n deall beth oedd cynnal yr Eisteddfod yn ei olygu i'r ardal, a chydiodd y swyddogion a'r aelodau'n dynn yn y cysyniad a mynd amdani, gan weithio gyda ni drwy gydol y broses. Diolch yn arbennig i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd am eu cefnogaeth.

Cynhaliwyd Gŵyl y Cyhoeddi yng Nghil-y-Coed ym Mehefin 2015, gyda'r seremoni ei hun yn y castell a llwyfan perfformio yng nghanol y dref, gan roi cyfle i drigolion de'r sir gael blas ar weithgaredd yr Eisteddfod.

Roedd gennym bafiliwn newydd eleni, a oedd yn cynnig gwell profiad i gystadleuwyr, perfformwyr a'r gynulleidfa, ac yn ofod llawer mwy hyblyg ar gyfer cyngherddau, gyda'r goleuo a'r sain yn ychwanegu cymaint at brofiad pawb.

Roedd hon yn flwyddyn bwysig o ran y prif seremonïau hefyd. Cafwyd enillydd ym mhob seremoni, a dyma'r flwyddyn pan ddaeth ein beirdd a'n llenorion ifanc i'r brig, gyda'r rhan fwyaf o'r prif enillwyr dan ddeugain oed. Yn ogystal, daeth y beirdd i'r brig yn y cystadlaethau rhyddiaith, wrth i Eurig Salisbury ennill y Fedal Ryddiaith a Guto Dafydd ennill Gwobr Goffa Daniel Owen.

Roedd Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau yn wythnos hapus, ac mae ein diolch yn fawr i bawb a fu'n ran o'r prosiect dros y ddwy flynedd er mwyn sicrhau ei llwyddiant.



## Y Gronfa Leol a Nawdd

Llwyddodd y Gronfa Leol i gyrraedd £300,000 drwy waith caled y trigolion lleol a chefnogaeth y Cyngor Sir.

Mae'r gwaith o drefnu a chynnal gweithgareddau lleol yn rhan werthfawr o'r prosiect cymunedol, ac yn gyfle i nifer fawr o drigolion lleol ymwneud gyda'r Eisteddfod am y tro cyntaf.

Cynhaliwyd mwy na 250 o weithgareddau lleol dros gyfnod o ddwy flynedd, rhai ohonynt yn ddigwyddiadau cymunedol bach, ac eraill yn fwy uchelgeisiol, gyda phob un yn cyfrannu tuag at y Gronfa.

Rhannwyd y dalgylch yn bedair ardal a chafodd pob ardal darged ariannol, gydag Y Fenni'n cael targed uchelgeisiol i gasglu £100,000. Llwyddwyd i gyrraedd a phasio'r targed, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb o bob ardal a fu wrthi'n ddygn yn codi arian ac ymwybyddiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf am eu gwaith.

Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar iawn i'n noddwyr am eu cefnogaeth drwy gydol y prosiect. Mae nawdd corfforaethol yn hanfodol i lwyddiant y prosiect ac wythnos yr Eisteddfod ei hun ac mae'n braf cael cymysgedd o sefydliadau mawr a bach yn dangos eu cefnogaeth yn gyhoeddus i'r Eisteddfod a'n gwaith.

## Argymhellion:

- Sicrhau bod gennym Gadeirydd i'r Pwyllgor Cyllid bob blwyddyn er mwyn tynnu pob ardal ynghyd a gweithredu fel lladmerydd i'r gwaith
- Datblygu ymhellach ein defnydd o wefan Just Giving a'r holl gyfleoedd / ffyrdd o godi arian mae'n ei chynnig
- Tynnu'r cyfleoedd nawdd i gyd at ei gilydd i'w cynnwys yn y pecyn noddwyr
- Datblygu adran nawdd ar ein gwefan, gyda gwybodaeth am wahanol becynnau sydd ar gael

# Cystadlu

## ➢ Cofrestru ar-lein

Eleni oedd y flwyddyn gyntaf i ni ddatblygu system gofrestru ar-lein ar gyfer cystadleuwyr. Lansiwyd y system ddechrau'r flwyddyn ar ôl i ymgynghoriad gyda chystadleuwyr a chyfle i rai brofi'r system.

Roeddem yn ymwybodol bod galw am y system, ond cawsom ein synnu gyda'r niferoedd a ddewsisiodd gofrestru ar-lein yn syth, gyda 80% o gystadleuwyr yn dewis defnyddio'r we yn hytrach na'r gyfundrefn bapur traddodiadol.

Bydd rhai gwelliannau'n cael eu cyflwyno i'r system dros fisoedd y gaeaf er mwyn hwyluso'r gwaith gweinyddol yn y swyddfa. Bydd modd cofrestru ar-lein ar gyfer 2017 o ddechrau Ionawr ymlaen, wrth fynd i www.eisteddfod.cymru.

## ➢ Hyrwyddo cystadlaethau

Rydym wedi datblygu'r ffordd o hyrwyddo cystadlaethau dros y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith hwn, gan dargedu cystadlaethau penodol, er mwyn denu ac annog cystadlu, gan ddefnyddio pob math o adnoddau cyfathrebu.

**Niferoedd Cystadlu 2016:**

- Cystadleuwyr llwyfan: 1,242
- Cystadleuwyr cyfansoddi: 547
- Cystadleuwyr celfyddydau gweledol: 286
- Cyfanswm: 2075
- Ceir rhestr llawn o'r canlyniadau ar-lein, www.eisteddfod.cymru/canlyniadau-2016, neu gelllir eu gweld fesul diwrnod yn adran archif 2016. Pob côr / band / parti yn un cystadleuydd



Helen Jones, 99 oed, ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru unigol i ddysgwyr



Cordydd, enillwyr Côr yr Wyl yn Sir Fynwy

## ➢ Cystadlaethau i ddysgwyr

Mae cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn parhau yn boblogaidd, gyda phump yn cyrraedd y rownd derfynol eto eleni, a Hannah Roberts o Frynmawr yn enillydd teilwng i'r gystadleuaeth.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu'r gystadleuaeth a'n gwaith gyda dysgwyr dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys edrych ar greu rôl lladmerydd i enillydd Dysgwr y Flwyddyn.

Byddwn hefyd yn codi statws yr enillydd a'r gystadleuaeth ar lwyfan y Pafiliwn gan roi cyfle i un o'r beirniaid ynghyd â'r enillydd i ddweud gair yn y cyflwyniad.

Un o ffefrynnau mawr y Pafiliwn eleni oedd Helen Jones (uchod) o Aberhonddu, a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru unigol i ddysgwyr, dair wythnos cyn ei phen blwydd yn 100 oed.

## ➢ Cystadleuwyr yn tynnu'n ôl

Cawsom amryw o gystadleuwyr torfol yn tynnu'n ôl yn hwyr eleni, yn arbennig yn y categorïau bandiau pres. Mae hyn yn achosi problemau mawr i'r rhaglen lwyfan gan ei fod yn creu problemau amseru i ni a'r darlledwyr. Mae hon yn broblem flynyddol gyda chystadleuwyr torfol.

## ➢ Cystadlaethau mewn gwahanol leoliadau

Erbyn heddiw, mae rhai cystadlaethau'n cael eu cynnal mewn is-bafiliynau gwahanol fel y Tŷ Gwerin. Mae hyn i'w groesawu, nid y unig gan ei fod yn gwneud y cystadlaethau'n fwy hygyrch i gynulleidfa wahanol, ond hefyd, yn aml, mae naws adeilad fel y Tŷ Gwerin yn gweddu'n well i arddull rhai o'r cystadlaethau.

Mae'n bwysig bod y cystadlaethau mewn gwahanol adeiladau'n cael eu gweinyddu yn yr un ffordd â'r rheiny a gynhelir mewn adeiladau fel y Pagoda ayb, a bod gwybodaeth am gystadleuwyr ac enillwyr yn cael eu prosesu'n ganolog fel bod gennym gofnod lawn o'n holl gystadleuwyr.

## ➢ Brwydr y Bandiau

Eleni oedd ail flwyddyn y gystadleuaeth ar y cyd gyda C2 Radio Cymru a Mentrau Iaith Cymru, a llwyddwyd i ddenu dros ugain o fandiau i gystadlu.

Cynhaliwyd pedair rownd gyn-derfynol mewn gwahanol ardaloedd, a'r rownd derfynol ar Lwyfan y Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Yr enillwyr eleni oedd Chroma, band ifanc o ardal Pontypridd.

## Argymhellion:

- Parhau i hyrwyddo cystadlu ar-lein, gan sicrhau bod y gwelliannau wedi'u gwneud i'r system cyn Ionawr 2017
- Ystyried rhedeg cofrestru ar-lein ar gyfer Y Lle Celf yn 2017
- Rhoi'r hawl i feirniaid gynnwys hyd at bump ar restr fer Dysgwr y Flwyddyn bob blwyddyn o 2018 ymlaen
- Parhau i gydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu'r cystadlaethau ar gyfer dysgwyr, gyda swyddogion yn dod yn ran o is-banel Panel y Dysgwyr
- Targedu cystadlaethau penodol i'w hyrwyddo er mwyn denu cystadleuwyr









## Cyngherddau

Cynhaliwyd cyfres o gyngherddau yn y Pafiliwn gyda'r nos unwaith eto eleni:

- Nos Wener 29 Gorffennaf: Cyngerdd Agoriadol gydag Only Men Aloud, Gwawr Edwards a Rebecca Trehearn
- Nos Sadwrn 30 Gorffennaf: Noson Big Band gyda Chôr yr Eisteddfod
- Nos Sul 31 Gorffennaf: Cymanfa Ganu
- Nos Lun 1 Awst: Noson Lawen
- Nos Fawrth 2 Awst: Serenestial – Antur Trwy Ofod ac Amser, gyda Catrin Finch
- Nos Iau 4 Awst: Huw Stephens yn cyflwyno Sŵnami, Yr Ods a Candelas, gyda'r Welsh Pops Orchestra

Denodd y cyngherddau gynulleidfa o bron i 7,350 yn ystod yr wythnos, ac mae amryw ohonynt eisoes wedi'u dangos ar S4C yn barod, gyda rhagor i ddod cyn diwedd y flwyddyn.

## ➢ Y Pafiliwn

Fel y soniwyd eisoes, dyma oedd blwyddyn gyntaf y Pafiliwn newydd. Mae hwn yn adeilad llawer mwy pwrpasol na'r babell binc, yn cynnig llawer mwy o botensial gyda'r llwyfannu. Yn ogystal, mae gwelededd yn llawer gwell ar gyfer y gynulleidfa, a thrwy hynny, safon ac ansawdd y profiad a geir yn llawer uwch.

Rhoddodd hyblygrwydd gofod y Pafiliwn newydd y rhyddid i ni fod yn greadigol yn ein syniadau ac wrth lwyfannu'r cyngherddau. Comisiynwyd Catrin Finch i guradu cyngerdd o gerddoriaeth glasurol ysgafn, yn edrych ar y planedau a'r gofod, ac am y tro cyntaf, cafwyd perfformiad gan gwmni bale (Ballet Cymru) yn un o'n cyngherddau.

Nos Iau, daeth tri phrif fand y Sîn Roc Gymraeg i'r llwyfan mewn cyngerdd yn cyfuno'u caneuon mwyaf eiconig gyda chyfeiliant y Welsh Pops Orchestra, dan arweiniad Owain Llwyd, gyda Huw Stephens yn cyflwyno'r cyfan.
Yn ddi-os, roedd cyngherddau Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau yn uchelgeisiol a chyffrous, a llwyddwyd i ddenu cynulleidfa newydd ac ifanc i mewn i'r Pafiliwn heb amddifadu ein cynulleidfa draddodiadol o nosweithiau a oedd yn apelio atynt hwythau.






















# Is-bafiliynau

Roedd y **Pentref Llên** mewn llecyn arbennig o ddeniadol eleni , ond mae'n amlwg ers peth amser nad yw adeilad y Babell Lên yn gweithio ar hyn o bryd. Mae'r adeilad yn rhy fawr ac oeraidd, ac mae hyn yn effeithio ar yr awyrgylch.

O 2017 ymlaen, bydd y strwythur ychydig yn llai, ac yn sgil hyn, os bydd yn bwrw, bydd seremonïau'r Orsedd ar y bore Llun a Gwener yn cael eu cynnal yn y Neuadd Ddawns. Bydd hyn yn sicrhau ein bod ni'n gallu cynnig awyrgylch mwy agos atoch yn y Babell Lên.

Unwaith eto eleni, roedd y **Pentref Drama**'n denu cynulleidfa dda, a braf iawn oedd cael y Sinemaes yn rhan o'r pentref am y tro cyntaf, gyda phartneriaeth dan arweiniad BAFTA Cymru. Yn ogystal, bu'r perfformiadau gan Theatr Bara Caws yn y goedwig yn atyniad poblogaidd, ac mae'r bartneriaeth rhwng yr Eisteddfod a Theatr Genedlaethol Cymru'n parhau i ffynnu.

Cafwyd rhagor o theatr stryd eleni, gydag amryw o gwmnïau'n cynnal sesiynau'n ystod yr wythnos. Mae'r rhain yn ffordd dda o ddenu pobl i mewn i'r Pentref Drama ac yn fodd o fynd â theatr allan i weddill y Maes.

Eleni oedd blwyddyn gyntaf y bartneriaeth rhwng yr Eisteddfod a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth drefnu a chynnal gweithgareddau **gwyddoniaeth a thechnoleg** ar y Maes. Cafwyd amserlen lawn o ddigwyddiadau, gyda sesiynau syllu ar y sêr yn cael eu cynnal mewn planetariwm pwrpasol.

'Ffiniau' oedd teitl arddangosfa arbennig **Y Lle Celf** eleni, gan dynnu themau o gyfrol Raymond Williams, 'Border Country', drwy gyfrwng gwaith nifer o artistiaid. Cafwyd enillwyr teilwng hefyd i'r holl wobrau yn Y Lle Celf eleni.

Mae'r **Lolfa Cystadleuwyr** yn parhau'n boblogaidd cyn i bobl ymddangos ar y llwyfan, ond mae angen gwell trefn i reoli pwy sy'n cael mynediad i gefn y llwyfan a phryd o'r lolfa. Byddwn yn edrych ar hyn erbyn 2017.

Braf oedd gweld **Maes D** yn orlawn yn ystod yr wythnos, gyda chymaint o ddiddordeb gan ymwelwyr lleol. Roedd cymysgedd dda o sesiynau ffurfiol ac anffurfiol yn y babell a'r pod, ac roedd yn bleser cael cwmni Ian Gwyn Hughes ac Osian Roberts o Gymdeithas Pêl Droed Cymru i drafod llwyddiant y tîm cenedlaethol.

Mae **Cymdeithasau**'n parhau i ddenu cynulleidfa fawr ac eang, gyda nifer o sesiynau'n llawn. Mae angen i ni barhau i hyrwyddo'r gweithgareddau ac edrych ar ffyrdd newydd i farchnata'r sesiynau i'r rheiny sydd ar y Maes.

Gweithiodd iwrt **Y Tŷ Gwerin** yn dda iawn eto eleni, ac mae'r adeilad a'i amserlen amgen wedi dod yn rhan bwysig o'r Maes. Mae angen edrych eto ar y cynllun mewnol ar gyfer y flwyddyn nesaf, er mwyn sicrhau bod cymaint o le â phosibl ar gael ar gyfer y gynulleidfa. Braf oedd gweld cynifer o berfformwyr amrywiol yn rhan o'r amserlen eleni.

Nid yw'r **Neuadd Arddangos** wedi newid o gwbl dros y blynyddoedd, er i weddill y Maes esblygu a datblygu, ac eleni, roedd trefnwyr yn teimlo bod angen edrych eto ar y strwythur ac ystyried adeilad llai ffurfiol ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, rydym yn teimlo nad yw stondin yr Eisteddfod ganlynol yn gweithio o fewn y Neuadd, a bydd hon yn cael ei ymgorffori fel rhan o'r ddesg wybodaeth yn y Ganolfan Ymwelwyr o 2017 ymlaen.

Mae **Caffi Maes B** yn denu cynulleidfa dda bob blwyddyn, ac ar adegau, roedd hi'n eithriadol o lawn yno. Byddai'n braf gallu ychwanegu tipi arall i ymateb i'r galw yn y dyfodol. Mae'r amserlen yn ddeniadol ac yn apelio at bobl ifanc yn arbennig.

Roedd y **Ganolfan Ymwelwyr** a'r brif fynedfa'n teimlo braidd yn wag eleni, ac mae angen sicrhau bod arwydd mawr y tu allan yn dweud beth yw'r adeilad, a bod gwaith wedi'i wneud i harddu'r tu mewn i'r adeilad hefyd.

Rhaid hefyd buddsoddi yn yr **ardal docynnau** i wneud yr arwyddion yn fwy deniadol. Dyma fan cychwyn y diwrnod ar y Maes, ac mae'n bwysig bod pobman yn ddeniadol ac yn lliwgar.

**Llwyfan y Maes** oedd un o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd ar y Maes unwaith eto eleni. Roedd y llwyfan ychydig yn llai y tro hwn, ac mae angen cytuno ar faint llwyfan y flwyddyn ganlynol yn fuan iawn yn broses er mwyn sicrhau argaeledd.

Mae'n rhaid sicrhau bod y tu mewn a'r tu allan i bob un o'n hadeiladau'n barod erbyn agor yr Eisteddfod am 10.00 fore Sadwrn, gyda rhai angen bod yn barod erbyn 18.00 nos Wener ac eraill erbyn pan mae'r ymarferion yn cychwyn yr wythnos cynt.



## Argymhellion

- Sicrhau bod pob adeilad yn barod erbyn agor yr Eisteddfod
- Lleihau maint y Babell Lên o 2017 ymlaen a chynnal seremonïau'r Orsedd yn y Neuadd (Ddawns) os bydd yn bwrw glaw
- Datblygu system well sy'n rheoli mynediad i gefn y llwyfan a'r swyddfeydd
- Ymgorffori stondin yr Eisteddfod ganlynol fel rhan o'r ddesg wybodaeth yn y Ganolfan Ymwelwyr
- Ystyried adeilad llai ffurfiol ar gyfer y Neuadd Arddangos yn y dyfodol
- Sicrhau bod arwydd mawr y tu allan i'r Ganolfan Ymwelwyr
- Sicrhau bod yr ardal docynnau'n lliwgar, deniadol a chroesawgar
- Parhau i gydweithio gyda mudiad Access is Everything i sicrhau bod anghenion ymwelwyr anabl yn cael eu ystyried ym mhob cyd-destun ar draws y Maes

# Maes B

Mae Maes B yn parhau’n dynfa fawr i bobl ifanc, a thros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi llwyddo i ehangu’r apel i gynnwys pobl o bob oed.

Unwaith eto eleni, roedd bandiau ac artistiaid gorau Cymru’n perfformio ym Maes B, ac roedd yr ymateb yn anhygoel, gyda nifer fawr o bobl ifanc lleol yn mynychu’r ŵyl am y tro cyntaf erioed, gan wneud Maes B eleni yn un o’r gwyliau mwyaf poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae’r prosiect cerddoriaeth sy’n cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn yn gyfle i ymweld ag ysgolion a cholegau gan godi proffil Maes B a thargedu pobl ifanc mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mae hyn yn waith allymestyn gwerthfawr sy’n helpu pobl ifanc i weld yr iaith fel rhywbeth sy’n berthnasol y tu hwnt i’r ysgol.

Llwyddwyd i werthu mwy o docynnau cyfnod Maes B eleni nag erioed o’r blaen, a bu’r gwaith marchnata a chyfathrebu’n canolbwyntio ar gyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn parhau i ddilyn y trywydd hwn yn 2017.

Roedd yn braf iawn gweld cynifer o bobl ifanc ar y Maes unwaith eto eleni, er bod Maes B a’r Maes peByll wedi’u lleoli oddi ar y safle, ac mae’r tocyn ieuenctid, sy’n  cynnwys gwersylla, tocynnau gigs a mynediad i’r Maes yn hynod o boblogaidd.

- **Nos Fercher 3 Awst:** Yr Eira, Ysgol Sul, Cpt Smith, Argrph, DJs Elan a Mari
- **Nos Iau 4 Awst:** Y Reu, HMS Morris, Alun Gaffey, Castles, Cadno, DJ Gareth Potter
- **Nos Wener 5 Awst:** Y Bandana, Candelas, Mellt, Fleur de Lys,  Calfari, DJ Huw Stephens
- **Nos Sadwrn 6 Awst:** Band Pres Llareggub, Yr Ods, Mr Phormula, Anelog, Chroma (enillydd Brwydr y Bandiau 2016), DJs Elan a Mari













## Meysydd yr Eisteddfod

### ➢ Y Maes

Roedd adeiladu'r Maes eleni'n heriol gan fod y tir yn anwastad, ond cafodd groeso mawr gan ein hymwelwyr, gyda'r ffaith ein bod mor agos at y dref wedi apelio'n arw, a'r coed yn ein galluogi i fod yn greadigol a chreu ambell leoliad cudd yn ystod yr wythnos. Diolch yn arbennig i Gyfeillion Dolydd y Castell am eu cydweithrediad parod drwy gydol y broses.

Unwaith eto eleni, bu Gwyn Eiddior yn arwain y gwaith o harddu'r Maes, gan ganolbwyntio ar ardaloedd penodol, gan gynnwys y Pentref Drama, y Pentref Llên a'r Pentref Bwyd. Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cymorth grant er mwyn ein galluogi i wneud hyn.

### ➢ Maes Carafanau

Bu'n rhaid lleoli'r maes carafanau ychydig filltiroedd o'r prif faes eleni, a chawsom dir ardderchog ar Ystad Llanofer. Dyma hefyd oedd lleoliad y maes pebyll teuluol a'r pebyll glampio, gyda gwasanaeth bws gwennol yn rhedeg yn rheolaidd rhwng y safle a'r Maes. Byddwn yn parhau i ddilyn yr un system o reoli'r meysydd y flwyddyn nesaf, a bydd safleoedd 2017 ar gael i'w llogi ar-lein o 1 Chwefror.

### ➢ Maes peByll

Lleolwyd y Maes peByll ar dir Fferm Racecourse, wrth ymyl Maes B, gyda bysiau gwennol yn rhedeg o'r Maes i'r ardal drwy'r dydd a than yn hwyr yn y nos, ac yna rhwng Maes B a'r maes carafanau tan oriau mân y bore.

### ➢ Meysydd Parcio

Yn ddi-os, roedd trafod a threfnu'r meysydd parcio'n dipyn o waith, a diolch i Gyngor Sir Fynwy am eu cymorth yn y gwaith hwn.

Y bwriad oedd sicrhau ein bod yn osgoi creu problemau traffig yn Y Fenni, ac felly roedd gennym dri maes parcio yng Nghwrt y Gollen, Penpergwm a Llanelen. Gweithiodd y meysydd yn dda, gyda'r arwyddion lliwgar yn ei gwneud yn hawdd i bobl gofio a nodi lle roedd y car.

Ond, bu'n anodd sicrhau gwirfoddolwyr i weithio yn y meysydd parcio yn ystod yr wythnos, a bu'n rhaid talu am y gwasanaeth yn y pendraw.

### ➢ Bysiau gwennol

Mae trefnu system bysiau gwennol yn broses heriol, a bu'r trafodaethau'n hir a chymhleth wrth roi'r rhaglen at ei gilydd eleni. Ond, gweithiodd y system yn arbennig o dda o'r cychwyn. Yn wir, daeth y daith ar y bws gwennol yn rhan o'r profiad eisteddfodol eleni, gyda fideos o ymwelwyr yn canu a mwynhau i'w gweld dros gyfryngau cymdeithasol yn ystod yr wythnos.

Diolch i Gyngor Sir Mynwy am reoli'r prosiect, a diolch yn arbennig i'r tîm serchus o yrrwyr, a fu'n gymaint o gaffaeliad i ni yn ystod yr wythnos.

## Argymhellion:

- Sicrhau bod gennym gyfarwyddiadau cywir i'r Maes ar ein gwefan cyn gynted ag y bo modd
- Parhau i greu arwyddion lliwgar ar gyfer ardaloedd o'r meysydd parcio yn y dyfodol
- Ceisio sicrhau gwasanaeth elusennau / mudiadau lleol i stiwardio yn y meysydd parcio yn fuan yn y flwyddyn

# Gwirfoddoli a Stiwardio

Rhoddwyd cryn bwyslais ar ddenu gwirfoddolwyr newydd eleni, gan gydweithio gyda Chyngor Sir Mynwy, a chan greu porth cofrestru ar ein gwefan.

Llwyddwyd i ddenu dros 200 o wirfoddolwyr, ond er hyn, roeddem braidd yn fyr mewn rhai rhannau o'r Maes ar rai adegau.

Yn y gorffennol, mae Maes D ac Y Lle Celf wedi bod yn gyfrifol am recriwtio'u gwirfoddolwyr eu hunain, ac mae hyn i'w groesawu, ond mae angen sicrhau bod gennym ni un gronfa ddata ganolog o unigolion, a'r ffordd orau i wneud hyn yw annog pawb i ddefnyddio'r wefan i gofrestru. Gweithiodd y cyfnod cofrestru o 1 Chwefror ymlaen yn dda, a byddwn yn edrych i weld a oes modd creu porth mwy pwrpasol ar-lein ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ei fod yn amlwg fod cofrestru ar-lein yn boblogaidd.

Rydym yn ymwybodol bod cyfrifoldebau ein stiwardiaid wedi newid dros y blynyddoedd, a'u bod yn gorfod delio gyda rheolau'r Eisteddfod (e.e. gwahardd dod ag alcohol i'r Maes) yn y brif fynedfa.  Rydym yn teimlo bod hyn yn annheg, felly o 2017 ymlaen, y bwriad yw cael staff i ddelio gyda thocynnau a chydag archwilio bagiau am alcohol wrth i bobl gyrraedd.

Mae rôl bwysig ein gwirfoddolwyr fel ein cyswllt cyntaf gydag ymwelwyr yn parhau yn hanfodol bwysig i'n llwyddiant, a byddwn yn datblygu dogfen sy'n amlinellu rôl a chyfrifoldebau stiwardiaid wrth edrych i'r dyfodol.

Byddwn hefyd yn edrych eto ar ba gyfleoedd sydd ar gael er mwyn rhoi cyfle i bobl wirfoddoli mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddyn nhw.  Byddwn yn siarad gydag ysgolion lleol (o fewn awr o daith) er mwyn annog disgyblion chweched dosbarth i wirfoddoli fel rhan o'u cwrs BAC neu brosiect Gwirfoddolwyr y Mileniwm, ac yn eu 'gwobrwyo' gyda thystysgrif y gellir ei ddefnyddio fel prawf o'r oriau.

Cafwyd cydweithio gyda'r Urdd eto eleni, ac mae angen datblygu'r berthynas hon ymhellach er mwyn cael tîm o arolygwyr ar draws Cymru.

## Argymhellion:

- Datblygu porth cofrestru mwy pwrpasol i gofrestru i wirfoddoli ar-lein
- Datblygu dogfen yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau stiwardiaid
- Cydweithio gydag ysgolion lleol i annog pobl ifanc i wirfoddoli drwy'r BAC
- Defnyddio staff cyflogedig i ddelio gyda thocynnau a materion diogelwch





# Cyfathrebu

Trefnwyd amryw o ymgyrchoedd cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth a denu trigolion lleol i'r Eisteddfod eleni, gyda nifer yn cael eu cynnal ar y cyd gyda Chyngor Sir Fynwy.

Roedd yn bwysig i ni sicrhau bod pobl yn ymwybodol o ymweliad yr Eisteddfod a'u bod yn gweld ein delwedd o gwmpas yr ardal yn rheolaidd yn ystod y misoedd hyd at yr Eisteddfod, a llwyddwyd i wneud hyn gyda chynlluniau a delweddau lliwgar a deniadol o amgylch Y Fenni a'r ardaloedd cyfagos.

Datblygwyd ein brandio ymhellach ar gyfer wythnos yr Eisteddfod, gyda defnydd o ddarluniau bychan  i gynrychioli pob adeilad.  Defnyddiwyd y rhain ar ddeunyddiau hyrwyddo'r wythnos ac ar fapiau ac arwyddion o amgylch y Maes, ynghyd â gwybodaeth ar y wefan.  Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r rhain y flwyddyn nesaf gan iddyn nhw fod yn boblogaidd ymysg ymwelwyr.

Dosbarthwyd dros 350 o becynnau busnes ar draws y dalgylch er mwyn codi ymwybyddiaeth a cheisio sicrhau bod busnesau'n paratoi ar gyfer ein hymweliad.  Cafodd  amryw o fusnesau yn Y Fenni gyfnod hynod o lwyddiannus dros gyfnod yr Eisteddfod.

Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn galw draw ar gyfer busnesau a thrigolion lleol yn Y Fenni cyn i'r gwaith gychwyn ar y Maes, a gweithiodd hyn yn dda.  Byddwn yn parhau i drefnu sesiwn fel hyn yn y dyfodol.

Eleni oedd y flwyddyn gyntaf i ni wneud defnydd llawn o'n gwefan newydd www.eisteddfod.cymru, gydag amryw o wasanaethau ar gael ar-lein, a braf oedd cael ymateb cadarnhaol i'r gwaith yn ein holiadur ymwelwyr ar ôl yr Eisteddfod.  Mae'r gwaith o ddatblygu a gwella'r wefan yn barhaus, a byddwn yn blaenoriaethu elfennau o hyn eto eleni.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein cynulleidfaoedd cyfryngau cymdeithasol eleni, gyda gwaith ymlaen llaw yn canolbwyntio ar Trydar, facebook ac Instagram, gyda defnydd o Snapchat a Periscope yn ystod yr wythnos ei hun.  Byddwn yn parhau i ddatblygu'r elfen yma o'r gwaith dros y flwyddyn nesaf.




Bu'r ymgyrch bargen gynnar yn llwyddiant unwaith eto eleni, gyda phob disgybl ysgol yn y dalgylch yn derbyn cerdyn post am y bargeinion cyn y dyddiad cau.

Am y tro cyntaf, penderfynwyd mynd ati i farchnata pob cyngerdd ar wahan, gan greu delwedd unigol ar gyfer pob noson. Gweithiodd hyn yn dda a byddwn yn parhau i wneud hyn. Hefyd, cynhyrchwyd nifer o faneri i hyrwyddo'r cyngherddau a'r cynllun bargen gynnar, a chafodd rhain eu harddangos o amgylch y dalgylch yn ystod y cyfnod hyd at yr Eisteddfod.

Yn wahanol i'r blynyddoedd diwethaf, gwariwyd ychydig mwy ar hysbysebu traddodiadol yn y papurau lleol, ac roedd effaith hyn i'w weld yng ngwerthiant tocynnau. Ategwyd hyn gyda chyfres o erthyglau yn y papur, a datblygodd perthynas arbennig o dda rhwng yr Eisteddfod a'r Abergavenny Chronicle.

## Argymhellion:

- Datblygu ein llyfrgell o glipiau fideo sy'n hyrwyddo elfennau o'r Eisteddfod
- Sicrhau bod gennym ni amserlen ar gyfer pob platfform cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl
- Parhau i gynnig y teithiau tywys gan edrych ar sut i hyrwyddo'r teithiau i garfannau penodol
- Parhau i hyrwyddo'r cyngherddau fel nosweithiau ar wahan
- Parhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau ar gael o wefan yr Eisteddfod
- Parhau i gynnal sesiwn galw draw i fusnesau a phobl leol
- Parhau i ddatblygu defnydd o gyfryngau cymdeithasol i farchnata er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd



# Tocynnau

Unwaith eto eleni gweithiodd yr ymgyrch bargen gynnar yn dda, gydag ymwybyddiaeth o'r cynllun yn uwch nag erioed.  Roedd y dyddiad cau yn gwbl glir, ac rydym y argymell ein bod yn cadw at y cynllun hwn, a'r cynllun o gynnig mynediad rhatach i ymwelwyr yn ystod y penwythnos cyntaf y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd cynnig tocynnau ar raddfa ratach ar ôl 16.00 yn hytrach na 16.30 eleni, a gweithiodd hyn yn dda, er bod rhai ymwelwyr yn cwyno bod pethau ar gau erbyn tua 17.30 ddechrau'r wythnos.  Rydym yn annog adeiladau fel Y Lle Celf i aros ar agor tan 19.30 ac am dynnu rhagor o sylw at weithgareddau hwyrnos sy'n digwydd yn y Tŷ Gwerin a Chaffi Maes B.

Rydym yn parhau i gael problemau gydag ymwelwyr yn ceisio ein twyllo wrth gael mynediad i'r Maes.  Byddwn yn cyflwyno system band garddwrn yn hytrach na thocyn ar gyfer plant o 2017 ymlaen, a bydd rhaid i blant ddangos y band i'r stiwardiaid / staff er mwyn cael mynediad i'r Maes.

Yn ogystal, rydym wedi cael problemau gyda phobl yn dangos llun o docyn ar eu ffôn symudol er mwyn ceisio cael mynediad i'r Maes. ac i gyngherddau.  Rhaid atgyfnerthu'r neges 'dim tocyn, dim mynediad' yn barhaus.

Nid yw'r neges  nad ydym yn caniatau mynediad neu ail-fynediad i'r Maes ar ôl 21.00 wedi cyrraedd pawb eto, felly mae'n rhaid i ni wneud mwy o waith i rannu'r wybodaeth yn y brif fynedfa, ar-lein, yn yr ardal docynnau ac i garafanwyr, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r rheol.

Gan fod ychydig gannoedd yn llai o seddau yn y Pafiliwn newydd, roedd llawer mwy o alw am seddi cadw ar gyfer y seremonïau, gyda nifer fawr o ymwelwyr yn uwchraddio'u  tocynnau yn y swyddfa docynnau'n ystod y dydd.  Rydym yn argymell ein bod yn rhyddhau tocynnau seddi cadw ar y dydd, a bod modd i bobl dalu £2 am docyn  tan 12.00, fel bod digon o amser i rannu'r wybodaeth am seddi cadw gyda'r stiwardiaid yn y Pafiliwn.

Braf yw gweld y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yn prynu tocynnau ar-lein, ac rydym yn gweithio'n barhaus er mwyn gwella'r gwasanaeth ar-lein er mwyn sicrhau bod y broses o brynu tocynnau mor hawdd â phosibl i bawb.

Bydd tocynnau Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ar werth ar 3 Ebrill, gan fod 1 Ebrill yn ystod y penwythnos y flwyddyn nesaf.

## Argymhellion:

- Parhau i redeg yr ymgyrch bargen gynnar a chynnig tocynnau rhatach ar y penwythnos cyntaf
- Parhau i gynnig mynediad rhatach ar ôl 16.00
- Annog adeiladau / stondinau i aros ar agor yn hwyrach ar ddechrau'r wythnos a hyrwyddo sesiynau hwyrnos ar ôl 17.00
- Cyflwyno system bandiau garddwrn yn hytrach na thocynnau ar gyfer plant ac atgyfnerthu'r neges 'dim tocyn, dim mynediad'
- Atgyfnerthu'r neges nad oes modd cael mynediad i'r Maes ar ôl 21.00
- Rhyddhau tocynnau seddi cadw ar y dydd am £2.00 fel bod modd eu prynu wrth gyrraedd y Maes
- Parhau i ddatblygu a gwella'r profiad o brynu tocynnau ar-lein

